**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1382
Ein cyf/Our ref LW/02803/23

Jack Sargeant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

20 Rhagfyr 2023

Annwyl Jack,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 26 Hydref ynghylch Deiseb P-06-1382 am ryddhau balwnau.

Er fy mod yn cydnabod y pryderon ynghylch yr effeithiau amgylcheddol sy'n gysylltiedig â rhyddhau balwnau, defnyddir digwyddiadau o'r fath yn sensitif i goffáu colli anwyliaid. Mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o sensitifrwydd o'r fath ac o ganlyniad, nid yw'n credu y byddai cyflwyno deddfwriaeth i wahardd rhyddhau balwnau yn gymesur ac ni fyddai gwneud hynny o fudd i'r cyhoedd. Yn hytrach, rydym yn parhau i weithio gydag eraill i annog dulliau eraill a mwy cynaliadwy o goffáu fel y bo'n briodol. Er enghraifft, gyda'n partneriaid rydym yn hyrwyddo coetiroedd coffaol fel rhan o brosiect Coedwig Genedlaethol Cymru.

Rydym hefyd wedi ysgrifennu o'r blaen at sawl sefydliad elusennol yn gofyn iddynt ystyried yr effeithiau ehangach, er enghraifft sbwriel, sy'n deillio o ryddhau balwnau yn eu digwyddiadau. Mabwysiadwyd dull tebyg gydag Awdurdodau Lleol Cymru ac mae'r rhan fwyaf bellach yn gweithredu polisi gwirfoddol o annog rhyddhau balwnau a llusernau awyr o dir sy'n eiddo i'r Awdurdod Lleol.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Bydd gohebiaeth sy'n dod i law yn Gymraeg yn cael ei hateb yn Gymraeg, ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Byddwn yn parhau i weithio gyda sefydliadau amgylcheddol fel Cadwch Gymru'n Daclus i nodi ffyrdd ychwanegol o godi ymwybyddiaeth o'r materion sbwriel sy'n gysylltiedig â rhyddhau balŵn, ynghyd â hyrwyddo dewisiadau amgen i'r arfer hwn gan gofio bod y mater hwn yn un sensitif.

Yn gywir

Julie James

**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd